



Gwasanaethau Anabledd Dysgu

Y pethau yr hoffen ni wneud yn y pum mlynedd nesaf

Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2021-2026 – Drafft ar gyfer Trafodaeth ac Ymgynghoriad – Ionawr 2022'.

Ionawr 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu ddeall. Gallwch chi edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 18**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

E-bost: Andrew.stevenson@gov.wales

Ffôn: 0300 025 5936



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, [cliciwch yma](#).

Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn.....	4
1. Cyffredinol.....	6
2. COVID a lles.....	8
3. Iechyd a gofal cymdeithasol.....	10
4. Eiriolaeth, hunaneiriolaeth, ymgysylltiad a chydweithrediad.....	15
5. Addysg a phobl ifainc.....	15
6. Gwaith a medrau.....	15
7. Tai.....	16
8. Cludiant.....	17
Geiriau anodd.....	18

Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn



Mae'r ddogfen hon yn dangos ein cynlluniau ar gyfer **polisiau** anableded dysgu dros y pum mlynedd nesaf.

Mae **polisi** yn rhestr o'r pethau sydd angen eu gwneud a sut y dylen nhw gael eu gwneud.



Dylai'r cynlluniau gael eu gwirio a'u newid pan fydd angen.



Mae arnon ni hefyd angen meddwl am y pandemig a sut y gall hynny effeithio ar y cynlluniau.



Hefyd bydd adolygiad o'r cynllun yn **2024**.



Y mae naw peth y mae arnon ni angen canolbwyntio arnyn nhw. Byddwn ni'n siarad mwy am y rhain yn y rhan nesaf.



Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y cynlluniau hyn. Ydyn nhw'n bethau yr hoffech chi i ni wneud?



Oes unrhyw gynlluniau eraill rydych chi'n meddwl y dylen ni eu gwneud hefyd?

Fe hoffen ni glywed gennych chi a gweld beth rydych chi'n feddwl. Gallwch chi adael i ni wybod trwy ysgrifennu at:



Ebost: Andrew.stevenson@gov.wales



Gallwch chi hefyd siarad â neu ysgrifennu at y person a anfonodd gopi o'r ddogfen hon atoch chi.

1. Cyffredinol



Mae arnon ni eisiau gwneud cynllun pum mlynedd erbyn mis **Mawrth 2022**.



Mae arno angen gwneud yn siŵr bod anghenion pobl ag anabledd dysgu yn cael eu diwallu.



Gwneud yn siŵr bod y grŵp **Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu (GCGAD)** yn dal i gynnwys pobl a chlywed eu barn.



Dylai'r grŵp hwn gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.



Gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau yn diwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.



A'u gofalwyr a'u teuluoedd.



Gobeithio gwneud **Arsyllfa Anabledd Dysgu ar gyfer Cymru**.

Mae **Arsyllfa Anabledd Dysgu ar gyfer Cymru** yn edrych ar wybodaeth ynglŷn â phobl ag anabledd dysgu i helpu i wella pethau. Er enghraifft, gwybodaeth am iechyd.

Gwella cefnogaeth trwy ddefnyddio **Cefnogaeth Ymddygiadol Gadarnhaol** a **Gofal Gwybodus ar gyfer Trawma**.



Mae **Cefnogaeth Ymddygiadol Gadarnhaol** a **Gofal Gwybodus ar gyfer Trawma** yn ffyrdd o gefnogi pobl ag anabledd dysgu â phroblemau ymddygiadol.



Gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i wneud gwasanaethau anabledd dysgu yn well. Mae hyn yn cael ei alw'n **gydgynhyrchu**.

2. COVID a lles



Mae arnon ni eisiau gwella **lles** pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.

Mae **lles** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.



Fe hoffen ni i'r grŵp **GCGAD** ein helpu i edrych ar **bresgripsiynu cymdeithasol**.

Mae **presgripsiynu cymdeithasol** yn digwydd pan fydd meddygon ac aelodau eraill o staff yn cyfeirio pobl at wasanaethau yn y gymuned i helpu i wella eu **lles**. Er enghraifft, mynd i'r gampfa neu ymuno â dosbarth.



Fe hoffen ni i'r awdurdodau lleol gynnig gweithgareddau i bobl ifainc ag anabledd dysgu i'w helpu i wella eu **lles**.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod unrhyw gynlluniau gan Lywodraeth Cymru ynghylch COVID yn cynnwys pobl ag anabledd dysgu.



Mae arnon ni angen gweithio gyda'n gilydd i feddwl am yr effeithiau y mae COVID wedi ei gael ar pobl.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod cynlluniau i gefnogi pobl trwy COVID.

3. Iechyd a gofal cymdeithasol



Mae arnon ni angen doddi pethau a benderfynwyd o'r adolygiad sy'n cael ei alw'n **'Gwella Gofal – Gwella Bywydau'** am Wasanaethau Arbenigol i Oedolion yn 2020 yn eu lle.



Mae arnon ni angen cychwyn grŵp gyda phobl ar draws Cymru sy'n edrych a yw gwaith yn digwydd. Mae hyn yn ymwneud â chefnogi pobl sydd angen cefnogaeth arbenigol ychwanegol.



Mae arnon ni angen cefnogi pobl cyn i bethau fynd yn rhy anodd.



Gwneud yn siŵr bod gan bobl fynediad at gefnogaeth dda mor agos i gartref â phosibl.



Cefnogi pobl i ddychwelyd adref pan yw'n bosibl.



Gwneud yn siŵr bod mwy o gefnogaeth ddiogel yng Nghymru.



Gwneud yn siŵr bod marwolaeth rhywun ag anabledd dysgu yn cael ei adolygu gan wasanaeth newydd sy'n cael ei alw'n **Adolygiad i Farwolaeth a Gwasanaeth Archwilio Meddygol (MES)**.



Gwneud yn siŵr ein bod ni'n deall pam y mae pobl wedi marw er mwyn i ni fedru gwella gwasanaethau.



Mae arnon ni eisiau rhoi rhaglen hyfforddi i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal iechyd.



Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd yn cwrdd ag anghenion pobl ag anabledd dysgu yn well.



Gwneud yn siŵr bod cynlluniau iechyd a diogelwch da ar gyfer pobl ag anabledd dysgu mewn gwasanaethau iechyd.



Mae arnon ni angen gwella cofnodion meddygon teulu. A helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael archwiliadau iechyd.



Mae ar bawb angen cael **Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd**.



Dylai'r rhain helpu i wella iechyd pobl a lleihau marwolaethau.



Mae arnon ni angen gweithio gyda'r mudiad **Gwelliant Cymru** i wella iechyd pobl ag anabledd dysgu.



Gwaith i helpu i rwystro pobl rhag bod yn unig.



Mae arnon ni angen gwella mynediad at wasanaethau dydd, gwasanaethau **seibiant** a seibiannau byr.

Mae gwasanaethau **seibiant** yn seibiannau i helpu i roi amser i ffwrdd i'r person a'i ofalwr.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod mwy o gefnogaeth i ofalwyr di-dâl. Gan gynnwys edrych sut i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael seibiant.




Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod anghenion gofalwyr yn cael eu cwrdd.



Mae arnon ni angen gwella'r ffordd y mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu defnyddio.



Mae arnon ni angen darparu mwy o gefnogaeth i rieni ag anabledd dysgu.



Mae arnon ni angen gwneud adolygiad o'r ddeddf sy'n cael ei galw'n **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014** i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y gwasanaethau a'r help sydd eu hangen arnyn nhw.



Mae arnon ni angen gofyn i grŵp **GCGAD** gymryd rhan yn y gwaith hwn.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod staff sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol yn cael yr hyfforddiant iawn.

4. Eiriolaeth, hunaneiriolaeth, ymgysylltiad a chydweithrediad



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael dweud eu barn, yn cael gwneud eu dewisiadau eu hunain a chael rheolaeth dros eu bywydau.

5. Addysg a phobl ifainc



Mae arnon ni eisiau gwella'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifainc ag anableddau dysgu.

6. Gwaith a medrau



Mae arnon ni eisiau gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl gael hyfforddiant a gwaith gyda thâl.

7. Tai



Mae ar **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** angen gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael barn pobl ag anabledd dysgu cyn gwneud penderfyniadau.



A bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cynnwys yn llwyr yn eu gwaith.



Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw cynghorau, gwasanaethau iechyd a mudiadau eraill sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu rhedeg yn dda.



Hefyd, mae ar bobl angen cael dweud eu barn yn llwyr ynghylch y ffordd y mae nawdd yn cael ei wario.



Mae ar bobl angen cael mwy o ddewis a rheolaeth dros ble maen nhw'n byw a chyda phwy.

8. Cludiant



Mae ar bobl ag anabledd dysgu angen cael gwell mynediad at gludiant cyhoeddus.



Er enghraifft, mae ar amserlenni bysiau angen bod ar gael mewn ffordd hawdd eu deall.



Dylai'r cynlluniau hyn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael defnyddio mwy ar wasanaethau cymunedol.

Geiriau anodd

Arsyllfa Anabledd Dysgu ar gyfer Cymru

Mae Arsyllfa Anabledd Dysgu ar gyfer Cymru yn edrych ar wybodaeth ynglŷn â phobl ag anabledd dysgu i helpu i wella pethau. Er enghraifft, gwybodaeth am iechyd.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae'r rhain yn gynghorau, gwasanaethau iechyd a mudiadau eraill sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu rhedeg yn dda.

Cefnogaeth Ymddygiadol Gadarnhaol a Gofal Gwybodus ar gyfer Trauma

Mae'r rhain yn ffyrdd o gefnogi pobl ag anabledd dysgu â phroblemau ymddygiadol.

Lles

Mae lles yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.

Polisi

Mae polisi yn rhestr o'r pethau sydd angen eu gwneud a sut y dylen nhw gael eu gwneud.

Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae presgripsiynu cymdeithasol yn digwydd pan fydd meddygon ac aelodau eraill o staff yn cyfeirio pobl at wasanaethau yn y gymuned i helpu i wella eu lles. Er enghraifft, mynd i'r gampfa neu ymuno â dosbarth.

Seibiant

Mae gwasanaethau seibiant yn seibiannau i helpu i roi amser i ffwrdd i'r person a'i ofalwr.